# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 22 MEDI, 2010

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths ac Ieuan Roberts, Dai Rees Jones (Cyngor Gwynedd), y Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Ymgynghorrol Harbwr Abermaw) ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Stephen Shakespeare, (Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Buddiannau Masnachol), Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub),

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) a Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Ieuan Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2010/11.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2010/11**

**3. YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Alwyn Gruffydd, Dyfed Edwards**,** **(**Cadeirydd Bwrdd y Cyngor), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), a David McLean, (Buddiannau Perchnogion Tir).

**4. CROESO**

Croesawyd y Cyng. Dai Rees Jones (Is-gadeirydd Bwrdd Cyngor Gwynedd), Mr Llyr B. Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned a Mr David O'Neill (Harbwr Feistr) i'r cyfarfod.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2010, fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyn cyflwyno ei adroddiad ategodd y Swyddog Morwrol groeso cynnes i Mr David O'Neill a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ers ei benodiad i'r swydd Harbwr Feistr ym Mhorthmadog ers cychwyn y tymor.

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol yn unigol:

- Mordwyo
- Datblygiadau'r Clwb Hwylio
- Ystadegau harbwr
- Cyllidebau'r Harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd
- Storm Arw mis Gorffennaf 2010
- Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr
- Ffioedd a Thaliadau
- Borth y Gest – Cychod Gweini a Dingis

### *(a) Mordwyo*

Oherwydd newidiadau cyson yn y sianel fordwyo bu'n rhaid ail leoli nifer o gymhorthion mordwyo. Bu'r buddsoddiad yn y llusernau mordwyo sydd wedi'u lleoli o fewn ardal yr harbwr mewnol o gymorth mawr i forwyr a chyfeiriwyd Aelodau at y cynllun dynesiad oedd ynghlwm yn dangos 17 mewn nifer o gymhorthion sydd i'w cynnal a'u cadw. Llongyfarchwyd y staff am sicrhau golau ar yr holl gymhorthion yn unol â chytundeb Tŷ'r Drindod. Nodwyd bod y risg o gynnal a chadw'r cymhorthion ar y draethell yn uchel yn ystod y gaeaf ond gobeithir cynnal y safon i'r dyfodol. Ystyriwyd ymestyn y cymhorthion i Bortmeirion ond oherwydd y risg uchel penderfynwyd nad oedd hyn yn ymarferol. Cadarnhawyd bod dau gymhorthydd sefydlog ychwanegol i'w gosod yn ardal Clwb Hwylio Porthmadog a Doc Peilot.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y rhaglen gynhwysfawr a oedd ynghlwm i'r adroddiad yn nodi trefniadau o gynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo gyda'r gobaith y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn y Nadolig.

### (b) Datblygiadau'r Clwb Hwylio

Atgoffwyd yr aelodau y gwnaed cais gan Glwb Hwylio Madog i ymestyn y cyfleusterau pontŵn presennol. Croesawodd y swyddog y cyfle i weld gwelliant yn yr Harbwr a'i fod yn enghraifft dda o fedru gwireddu gwelliannau drwy gydweithio hefo busnesau lleol.

Yn wreiddiol pryderwyd y byddai ychwanegu at faint y cyfleusterau pontŵn yn amharu ar y llithrfa sydd wedi ei hymestyn ac yn amharu ar llif dwr yr harbwr mewnol. Fodd bynnag, yn dilyn astudiaethau yn ystod yr haf gwelwyd na fyddai ymestyn y pontŵn yn cael effaith niweidiol ar ddefnydd y llithrfa gan gychod

eraill ac nad oedd yn amharu ar lif y dyfroedd. Roedd angen sicrwydd gan y Clwb hwylio na fyddai ymestyn y pontwn yn cael unrhyw effaith ar lif dwr yr harbwr.

Ymgynghorwyd â'r Gwasanaeth Morwrol ynghylch y datblygiad er mwyn cyflwyno sylwadau i Tŷ'r Drindod. Gan fod y Pwyllgor Ymgynghorol hwn wedi cytuno mewn egwyddor i ymestyn y cyfleuster yr unig amod pellach a awgryma'r Gwasanaeth Morwrol yn ddarostyngedig i dderbyn caniatâd gan Tŷ'r Drindod, ydoedd y dylid gosod goleuadau coch sefydlog ar bob pen i'r datblygiad arfaethedig.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r trafodaethau blaenorol ynglŷn â'r cais a thynnwyd sylw bod datblygiad y pontŵn yn cynnwys darparu ramp mynediad i'r pontwns i gerddwyr dros y grisiau llechi hanesyddol. Diogelir ramp mynediad y pontŵn gyda giât wedi'i gosod ar ochr y tir. Pan ganiatawyd y datblygiad arfaethedig, roedd yn ofynnol y byddai'r cyhoedd yn parhau i gael mynediad di-rwystr i'r harbwr drwy ddefnyddio ramp mynediad y pontŵn. Fodd bynnag, 'roedd yr Uned Forwrol ar ddeall bod y Clwb Hwylio yn wrthwynebus i'r cyhoedd ddefnyddio'r ramp ar gyfer defnydd masnachol (sef ar gyfer mynediad i'r ysgraff) a oedd yn groes i egwyddor y cynllun a dealltwriaeth flaenorol pan ganiatawyd y cais iddynt gael gosod pontŵn. Roedd y Swyddog Morwrol o'r farn y dylai'r ramp fod ar gael i ddefnydd cyhoeddus boed hyn ar gyfer defnydd masnachol neu breifat yn union fel y defnyddiwyd y grisiau llechi hanesyddol. Teimlwyd y byddai gwasanaeth ysgraff yn atyniad i'r Harbwr. Fe fyddai'r ysgraff yn cael ei thrwyddedu gan y Cyngor gan na fyddai'n cario mwy na 12 unigolyn ac yn gweithredu mewn dyfroedd categoriedig.

Ategodd sawl Aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol eu pryder ynglŷn â'r uchod a siom yn agwedd y Clwb Hwylio ac y byddai'n suro perthynas. Awgrymwyd y dylid ysgrifennu llythyr cryf i'r Clwb Hwylio yn datgan safbwynt y Cyngor mai'r ddealltwriaeth ydoedd bod y ramp at ddefnydd y cyhoedd. Nodwyd bod y grisiau wedi bod mewn defnydd gan drigolion Porthmadog ers dros 200 mlynedd ac yn unol â chyfraith 'roedd hawl tramwyo wedi ei sefydlu ers blynyddoedd bellach ac y dylai'r ramp fod yn agored i'r cyhoedd.

Mewn ymateb i'r pryderon uchod, esboniodd cynrychiolydd y Clwb Hwylio efallai bod camddealltwriaeth wedi digwydd oherwydd nad oedd y Clwb Hwylio yn gwrthwynebu defnydd o'r ramp mynediad i'r cyhoedd ond yn hytrach yn pryderu am iechyd a diogelwch y cyhoedd. Nid oedd y giât i rwystro unigolion i fynd ar y ramp ond yn hytrach i'w rhybuddio o'r angen i fod yn wyliadwrus rhag peryglon gan fod cymaint o ddefnydd o'r pontŵn yn ystod yr haf gan ymwelwyr a physgotwyr. 'Roedd arwyddion wedi eu gosod ar y giât am yr angen i blant wisgo siacedi diogelwch. Yng nghyswllt y gwasanaeth ysgraff, mynegwyd pryderon gan y Clwb am yr angen i gael yswiriant priodol ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio'r ysgraff yn enwedig pan fydd oddeutu 12-15 o bobl yn aros i fynd ar ei bwrdd ac o ystyried y byddai'r pontŵn yn llithrig ac y dylent wisgo siacedi diogelwch perthnasol. Addawodd y cynrychiolydd y byddai'n cyfleu pryderon y Pwyllgor Ymgynghorol i'r Clwb Hwylio.

Tra'n croesawu ac yn gwerthfawrogi'r cydweithio arbennig rhwng y Cyngor a'r Clwb Hwylio, roedd y Swyddog Morwrol o'r farn mai cyfrifoldeb y Clwb Hwylio

ydoedd cael yswiriant priodol ar gyfer defnydd y ramp mynediad. Mewn perthynas â gwisgo siacedi achub esboniodd y Swyddog Morwrol nad oedd modd gorfodi perchennog yr ysgraff i'w gwsmeriaid wisgo siacedi diogelwch ond bod ganddo rhai ar y cwch. Fe fyddai hyn yn ddibynnol ar asesiad risg y perchennog.

Nododd cynrychiolydd y Clwb Hwylio ar ran y Clwb na allent ganiatáu mynediad cyfyngedig i'r gwasanaeth ysgraff ac y byddai'n rhaid i'r perchennog gydymffurfio a chydweithio a defnyddwyr eraill y pontwn.

Yn dilyn trafodaeth o'r ffordd orau ymlaen i ddatrys y camddealltwriaeth uchod, addawodd cynrychiolydd y Clwb Hwylio y byddai'n trafod ymhellach safbwynt y Pwyllgor Ymgynghorol hefo'i gyd-aelodau ac yn adrodd yn ôl i'r Swyddog Morwrol ar y canfyddiadau. Awgrymwyd gan y Cadeirydd i'r Swyddog Morwrol pe codir anhawster mewn datrys y broblem, iddo alw cyfarfod brys o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

***(c) Ystadegau Harbwr***

Mewn tabl a gyflwynwyd i'r aelodau, nodwyd fod yna 955 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn 2010 o'i gymharu â 892 yn 2009. Nodwyd bod gwendidau yn parhau i ddefnyddwyr gydymffurfio a rheolau ond fe edrychir i gryfhau hyn yn barhaol i'r dyfodol. Cofrestrwyd 1378 o gychod pŵer sydd eto'n dangos cynnydd.

Adroddodd y swyddog ymhellach fod 177 o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni o'i gymharu â 180 yn 2009, sef 75% o'r angorfeydd a oedd yn ostyngiad o 1%. Nid oedd y Swyddog Morwrol yn orbryderus am hyn oherwydd bod cyfanswm hyd y cychod wedi cynyddu a hyderir yn dilyn y datblygiad arfaethedig yn yr Harbwr i osod pontwn fe welir potensial i gynyddu ymhellach.

Nodwyd bod ansawdd cynnal a chadw'r angorfeydd wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.

Mewn ymateb i bryder amlygwyd gan Aelod ynglŷn â'r nifer o gychod oedd yn lansio ym Morfa Bychan gyda thrwyddedau ffug, eglurodd y Swyddog Morwrol bod staff yr Harbwr wedi cydweithio'n dda gyda'r Heddlu yn hyn o beth.

***(d) Cyllidebau***

Tywyswyd yr Aelodau drwy'r cyllidebau gan nodi bod gan Aelodau'r Cyngor benderfyniadau anodd iawn o'u blaenau ynglŷn ag arbedion. Yr her fwyaf i swyddogion ydoedd ceisio gwneud y gorau o'r gwasanaeth hefo llai o arian.

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad terfynol cyllideb yr harbwr am y flwyddyn 2009/10 yn ogystal â chyllideb refeniw a thargedau incwm yr harbyrau am y flwyddyn ariannol 2010/11. .Cyfeiriodd y swyddog at effaith y tywydd hynod anffafriol a gafwyd yn ystod yr haf a rhybuddiodd y bydd angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fydd y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r

gyllideb. Fe fyddai'r Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn darparu rhaglen gynnal a chadw manwl ar gyfer tymor yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn Harbwr Porthmadog.
Eglurwyd y rhesymau am y tanwariant o £12,066.31 o dan y pennawd costau gweithwyr sef bod nifer o staff dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod ar secondiadau er mwyn sicrhau gwasanaeth gorau i'r defnyddwyr.

Nodwyd bod incwm harbwr Porthmadog hyd yma yn £7,070 yn is na'r targed incwm. Gosodwyd targed o £77, 910 ac mae'r incwm hyd yma yn £70, 839. Nid oedd y swyddog yn rhagweld y bydd yna ychwanegiad sylweddol rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth 2011.

Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddai'n anfon manylion o gyllidebau traethau i Aelodau'r Pwyllgor ymhen y mis ac y byddai'n sicrhau bod y wybodaeth yn rhan o'i adroddiad ar gyfer cyfarfodydd i'r dyfodol.

**(dd) Cynnal a Chadw Angorfeydd**

Adroddodd y Swyddog Morwrol y penodwyd contractwyr gwahanol eleni ar gyfer cynnal a chadw'r angorfeydd a'u bod wedi cwblhau'r gwaith yn unol â'r fanyleb. 'Roedd y costau llawer iawn llai eleni ond byddai'n ofynnol i wahodd tendrau gan gontractwyr cymwys am y gwaith ar gyfer flwyddyn nesaf.

Gwnaed sylw gan Aelod bod galw cyson am angorfeydd ym Morth-y-gest a gofynnwyd a oedd yn bosibl i'r Cyngor gymryd drosodd angorfa breifat gan unigolyn nad oedd yn dymuno parhau a'i ddefnydd, er mwyn ei ail-osod.

Tra'n derbyn y sylw, eglurodd y Swyddog Morwrol pe byddai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb o angorfa breifat, byddai'n rhaid i'r angorfa fod o ansawdd derbyniol. Ategodd y byddai'r Harbwr Feistr yn cydweithredu drwy adolygu'r sefyllfa ac yn cydweithio hefo trigolion lleol.

**(e) Storm Arw mis Gorffennaf 2010**

Adroddodd y Swyddog Morwrol y bu cryn ddifrod i nifer o gychod yn Harbwr Porthmadog yn deillio o storm garw ar 15/16 Gorffennaf 2010. Roedd nifer o gychod wedi eu difrodi tu hwnt i'w trwsio. Fodd bynnag, 'roedd yr offer angori, o'r codwr angor i'r angorau mewn un darn, sy'n dangos pa mor effeithiol mae ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi i gynnal a chadw'r angorfeydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond yn sicr, 'roedd diffyg gwybodaeth gan berchnogion ar ba fath o raff a ddylid defnyddio i glymu cychod mawr eu maint i'r angorfa i'w diogelu rhag dod yn rhydd.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch am wasanaeth y Bad Achub wedi'r difrod uchod a gofynnwyd i Mr Peter Lunt Williams gyfleu diolchiadau'r Pwyllgor i'r gwirfoddolwyr am eu cymorth a'u cefnogaeth ac am eu gwaith yn gyffredinol yng Nghricieth. Yn yr un modd diolchwyd i Mr Ken Fitzpatrick, a Mr David O'Neill ynghyd â Gwylwyr y Glannau am eu hymroddiad a'u gwaith yn yr Harbwr yn ystod ac yn dilyn y storm eithriadol.

**(f) Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr**

Adroddodd y Swyddog Morwrol y derbyniwyd cais gan Gyngor Cymuned Aberdyfi i ystyried cyflwyno cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Harbwr i galendr pwyllgorau'r Cyngor. Cyfansoddiad y Pwyllgor ychwanegol fyddai cynrychiolwyr o'r 4 Pwyllgor Harbwr (Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli) gan gyfarfod ar ddyddiad fyddai hanner ffordd rhwng y Pwyllgorau a raglennwyd yn barod, unai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr / dechrau mis Ionawr.

Atgoffwyd yr Aelodau bod pob y pedwar Pwyllgor Harbwr presennol wedi enwebu aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar y Pwyllgorau Harbwr fel sylwedyddion fel bo modd rhannu gwybodaeth berthnasol i bob Pwyllgor Harbwr. Nodwyd bod Pwyllgor Ymgynghorol Porthmadog yn wahanol i Bwyllgorau Ymgynghorol yr Harbyrau eraill gan ei fod yn Bwyllgor Statudol a oedd wedi ei sefydlu yn unol â Deddfwriaeth yr Harbwr. Awgryma'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y sustem bresennol yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol â'r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi Aelodau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar God Diogelwch Morol Porthladd yr harbwr perthnasol. Fe wel y Swyddog werth mewn ystyried cynnal Pwyllgor Harbwr ychwanegol pe byddai'n trafod materion technegol rhagweithiol o ddydd i ddydd.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ei fod yn gweld gwerth yn y sustem bresennol o'r pedwar Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr fel bo modd derbyn mewnbwn gan gynrychiolwyr allanol, a.y.b. ond y byddai modd edrych i'r dyfodol er mwyn cysoni'r trefniadau drwy ddiffinio eu pwrpas a'u rôl.

Anghytunai sawl Aelod y dylid ystyried creu Pwyllgor Ymgynghorol ychwanegol yn enwedig gan fod aelodau cyfetholedig yn cael gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgorau Harbwr pe dymunent. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid ystyried y posibilrwydd o ail-ystyried cyfansoddiad y Cyngor lle gellir cyflwyno cofnodion y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr i brif bwyllgor y Cyngor. Ar hyn o bryd, nodwyd bod y cofnodion yn cael eu cyflwyno o un Pwyllgor Harbwr i'r llall ond wrth gwrs 'roedd swyddogion yn gweithredu ar unrhyw argymhellion a godir fel mater o drefn.

I gloi'r drafodaeth, eglurodd Is-Gadeirydd Bwrdd y Cyngor bod aelodau o'r Bwrdd yn cael gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor Harbwr hwn ac mai'r unig ffordd i newid y drefn fyddai ail-ystyried cyfansoddiad y Cyngor.

**(ff) Ffioedd a Thaliadau – Cynnig drafft**

Nodwyd y byddai adroddiad blynyddol ar ffioedd a thaliadau'n ymwneud â'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig ar gyfer 2011/12 yn cael ei gyflwyno i'r Arweinydd Portffolio tua diwedd mis Rhagfyr. Byddai'n ofynnol i roi ystyriaeth i unrhyw gynnydd sydd ei angen er mwyn cynnal ffioedd a thaliadau yn unol â chwyddiant yn ystod 2011/12 gan y bydd TAW yn cynyddu 2.5% ar 1 Ionawr 2011, ac felly bydd costau ychwanegol i gwsmeriaid yr harbwr.

Ar hyn o bryd, nid oedd ffioedd gwahanol yn bodoli i brif leoliadau yn Harbwr Porthmadog ac awgrymwyd ystyried y byddai modd ail-strwythuro'r ffioedd ar gyfer 2011/12 i adlewyrchu'r gwahanol ardaloedd yn yr Harbwr ac yn sgil hyn yn fodd o gynyddu'r targed incwm.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at gopi o'r ffioedd a'r taliadau presennol yn ogystal â'r bwriad i gynyddu'r ffioedd i'r dyfodol.

### (g) Borth y Gest – Cychod Gweini a Dingis

Nodwyd bod staff yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig wedi bod yn clirio cychod gweini oedd wedi eu gadael a'u hesgeuluso o ardal benodol ym Mhorth y Gest. Bwriedir ymgymryd â gwaith pellach gan yr Harbwr Feistr i symud cychod gweini yn ystod y gaeaf eleni ac fe gynghorir perchnogion angorfeydd i gysylltu ag ef er mwyn cofrestru eu hangorfa. Bydd angorfeydd sydd heb eu cofrestru a heb eu gwasanaethu yn cael eu symud oddi yno.

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol ar drefniadau arfaethedig i reoli defnydd pwynt mynediad at y blaendraeth ym Mhorth y Gest drwy osod bolard diogelwch ar frig y ramp mynediad er mwyn atal cychod nad ydynt wedi'u cofrestru rhag lansio a dychwelyd ym Mhorth y Gest. Ystyrir cyflwyno allwedd i'r unigolion hynny fydd yn cydymffurfio â thelerau Trwydded er mwyn iddynt gael mynediad trwy'r bolard diogelwch.

Diolchodd Aelod i'r Harbwr Feistr am y gwaith a chroesawyd y syniad i symud cychod oddi yno os nad oedd perchnogion yn ail-gofrestru. O brofiad, 'roedd perchnogion cychod lleol yn ei chael yn anodd mynd o amgylch y cychod a bod tacluso yn flaenoriaeth a hyderir y gwelir gwelliant i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch gan nodi'r sylwadau a wnaed gan yr aelodau.**

## 5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar 16 Mawrth, 2011.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.10pm a daeth i ben am 7:45pm

**CADEIRYDD**